ADCG

Amhariad Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd

Amhariad datblygiadol yw **ADCG** lle mae disgybl yn arddangos lefelau uchel o ddiffyg sylw a/neu orfywiogrwydd a natur fyrbwyll e.e. - diffyg canolbwyntio, eraill yn gallu tynnu ei sylw'n hawdd, ddim yn gorffen pethau, methu aros ei dro, torri ar draws ac ati.

- Cadwch gyfarwyddiadau'n syml gyda strwythur
- Sicrhewch fod rheolau, arferion, cyfarwyddiadau ac esboniadau'n glir - byddwch yn gyson
- Defnyddiwch strategaethau gweledol y gall y disgybl gyfeirio'n ôl atynt bob amser
- Trefnwch seddau er mwyn lleihau ymyriadau
- Rhowch fwy o amser i'r disgybl drefnu a chwblhau tasgau
- Gwahaniaethwch dasgau a'u rhannu'n ddarnau y gall y disgybl ddelio â hwy
- Rhowch seibiannau rheolaidd a chyfleoedd iddo fynd i'r ardal ymlacio /gweithgareddau
- Gadewch i'r plentyn ddal/tapio gwrthrych neu rywbeth nad ydyw'n gwneud sŵn
- Ceisiwch osgoi gofyn cwestiynau uniongyrchol i'r disgybl o flaen y dosbarth
- Rhowch adborth cadarnhaol ystyrlon a rheolaidd
- Defnyddiwch dechnoleg

www.addiss.co.uk
www.addandadhd.co.uk

Amhariad datblygiadol cymhleth yw **ASA**. Mae disgyblion awtistig yn cael anawsterau gyda chyfathrebu cymdeithasol, rhyngweithio cymdeithasol a deall bod gan eraill feddyliau a theimladau a all fod yn wahanol i'w meddyliau a'u teimladau eu hunain. Maen nhw'n aml yn profi gwahaniaethau synhwyraidd sy'n effeithio ar eu gallu i ddysgu. Gall disgyblion awtistig gael anawsterau wrth reoleiddio eu hemosiynau.

- Creu amgylchedd disgwyliadwy, cynnig strwythur ac arferion heb newidiadau sydyn
- Cadwch iaith yn syml a rhowch un cyfarwyddyd ar y tro, byddwch yn gyson
- Defnyddiwch gliwiau gweledol
- Cynlluniwch ymlaen llaw i leihau ansicrwydd i'r disgybl
- Peidiwch â cheisio stopio ymddygiad rhyfedd neu ailadroddus oni bai ei fod yn ymyrryd â'r dysgu - mae'n well ceisio addasu'r ymddygiad
- Dywedwch enw'r plentyn i gael ei sylw
- Ystyriwch wahaniaethau synhwyraidd y disgybl a gwnewch addasiadau yn ôl yr angen
- Ymdrech i gyfathrebu yw ymddygiad heriol fel arfer - byddwch yn sensitif i ymdrechion y disgyblion i gyfathrebu

www.autism.org.uk
Llinell cymorth: info@autismcymru.org

ASA

Amhariad ar y Sbectrwm Awtistig

Amhariad datblygiadol yw **Syndrom Asperger** sy'n rhan o'r sbectrwm awtistig. Mae gan ddisgyblion fel arfer ddeallusrwydd cyffredin neu uwch na'r cyffredin ac maen nhw fel arfer yn cael anawsterau gyda rhyngweithio cymdeithasol, cyfathrebu cymdeithasol a hyblygrwydd o ran meddwl neu ddychymyg. Hefyd, gallai rhywun ag Asperger hefyd fod ag anawsterau synhwyraidd, echddygol a threfniadol. Gall disgyblion ddangos amryw ymddygiadau megis: diffyg empathi, dychymyg gwael, anhawster o ran gwneud ffrindiau, brwdfrydedd anarferol mewn diddordeb arbennig a phroblemau gyda chyd-symud echddygol. Gall llawer o bobl ifanc ag Asperger brofi unigedd a diffyg dealltwriaeth yn eu bywydau bob dydd, sy'n aml yn arwain at rwystrediga-eth, dicter, a diffyg hunan-barch.

- Defnyddiwch ddulliau cyfathrebu syml, clir - osgowch drosiadau a choegni
- Cadwch ystumiau wynebol yn glir a syml
- Osgowch ormod o newidiadau ac anallu disgybl i ymdopi â sefyllfaoedd annisgwyl
- Gosodwch reolau clir gyda strwythur a byddwch yn drefnus
- Defnyddiwch ddiddordebau penodol, cryfderau a sgiliau presennol disgyblion
- Ystyriwch sensitifrwydd disgyblion i olau, sŵn a chyffyrddiad

www.autism.org.uk

Asperger

Syndrom

BESD

Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol

Gall **BESD** ymddangos mewn sawl ffordd: gall disgyblion gael anhawster o ran creu perthnasau a derbyn awdurdod neu gyfarwyddyd. Gall disgyblion ei chael hi'n anodd rheoli teimladau megis ofn, dicter, rhwystredigaeth, pryder neu dristwch a mynegi hyn mewn ffyrdd all achosi niwed i'w hunain neu eraill. Gallant fod yn ymosodol a hynny'n gorfforol neu ar lafar; gallant niweidio eu hunain neu ddioddef o bryder neu iselder; gallant ymddangos yn swil neu fod yn amharod i gyfathrebu. Mae disgyblion swil neu emosiynol fregus yn rhan o'r continwwm BESD fel y mae disgyblion sy'n ymddwyn mewn ffyrdd mwy amlwg.

- Gadewch iddynt fynd i ardal ymlacio yn ôl yr angen
- Osgowch gyfarwyddiadau cymhleth hir
- Sefydlwch arferion pendant gan osod ffiniau clir a phenodol
- Rhowch ganmoliaeth pan fônt yn gwneud ymdrech i gadw hunan-barch; ceisiwch eu dal yn gwneud y peth iawn
- Cadwch ddull pendant a chadarnhaol
- Cytunwch ar gytundebau cydweithredol gydag oedolion eraill a chyfeiriwch at staff allweddol/uwch yn ôl y gofyn
- Osgowch wrthdrawiadau uniongyrchol a rhowch ddewisiadau clir gan gymryd digon o amser i wneud penderfyniadau

www.sebda.org

Cyflwr genetig yw **Syndrom Down**, yn deillio o ddiffyg ymraniad cromosom 21. Bydd gan ddisgyblion ryw lefel o anabledd dysgu a byddant yn datblygu'n arafach na'u cyfoedion, gan gyrraedd pob cam datblygu yn hwyrach gan aros ym mhob cam am hirach. Mae disgyblion yn ddysgwyr gweledol cryf ond yn ddysgwyr clywedol gwael.

- Defnyddiwch ddulliau gweledol, ymarferol a chinesthetig gydag arddangosiadau a defnyddiwch ddeunyddiau ymarferol
- Targedwch sgiliau hunan gymorth gan annog annibyniaeth a chydweithredu gyda chyfoedion
- Rhowch amser iddynt brosesu iaith a ffurfio ymatebion
- Siaradwch â'r disgybl yn uniongyrchol, gan atgyfnerthu gydag ystumiau wyneb ac arwyddion
- Defnyddiwch iaith syml a chyfarwydd, brawddegau byr a chyfarwyddiadau clir
- Defnyddiwch ddeunydd cyfarwydd ac ystyrlon, gan ailadrodd ac atgyfnerthu
- Defnyddiwch reolau clir
- Sicrhewch gyfathrebu da rhwng rhieni a'r ysgol
- Defnyddiwch gyngor arbenigol i baratoi deunyddiau ac adnoddau gwahaniaethol

www.downs-syndrome.org.uk

Down

Syndrom

Dyspracsia

Amhariad Cyd-symud Datblygiadol

Mae dyspracsia a elwir hefyd yn Amhariad Cyd-symud Datblygiadol **(ACD)**, yn deillio o namau o ran cyd-symud, rheoli a chynllunio echddygol a all effeithio ar symudiadau. Gall disgyblion gael anhawster wrth gynllunio a chyflawni gweithrediadau dilyniannol cymhleth. O ganlyniad, gall y rheiny a DCD ymddangos yn lletchwith gan oedi gyda'u gweithredoedd. Gall disgyblion â DCD gael trafferth gyda: defnyddio pennau neu gytleri, gwisgo, cerdded lan a lawr grisiau, clymu careiau sgidiau a chyfeiriadedd gofodol. Gallant hefyd gael anhawster gyda dilyniannau a threfnu eu hamser a gweithgareddau.

- Rhannwch dasgau'n ddarnau y gall y disgybl ddelio â hwy
- Rhowch y cyfle lle y bo'n bosibl i ddisgyblion ddefnyddio prosesydd geiriau ar gyfer eu gwaith
- Lle y bo'n bosibl rhowch gyfarwyddiadau mewn ffordd weledol i'w helpu gyda'u gwaith trefnu
- Rhowch fwy o amser i'r disgybl brosesu cyfarwyddiadau
- Caniatewch fwy o amser ar gyfer gweithgareddau sgiliau echddygol a manwl
- Defnyddiwch daflenni cynllunio tasgau i helpu gyda'r gwaith trefnu
- Rhowch ddigon o ganmoliaeth ac anogaeth
- Sicrhewch bod gwaith cartref yn cael ei gofnodi yn eu cynllunydd

www.dyscovery.info **www.dyspraxiafoundation.org.uk**

AC

Amhariadau Clyw

Gall plant â **Amhariadau Clyw**, (yn enwedig un dros dro nas cydnabyddir), fod ymysg y rhai mwyaf agored i niwed a dan anfantais addysgol. Caiff byddardod ei ddisgrifio mewn pedair lefel; mân; cymedrol, difrifol a dwys. Gall amrywiaeth o ffactorau effeithio ar eu cyflawniadau.

- Mynnwch sylw'r disgyblion cyn dechrau siarad - defnyddiwch enw'r plentyn
- Siaradwch yn glir ond heb arafu na siarad yn uwch na'r arfer - mae gweiddi yn amharu ar batrwm y wefus
- Peidiwch â gorchuddio eich wyneb gyda'ch dwylo/gwrthrychau neu gerdded o gwmpas wrth siarad
- Wynebwch y disgybl wrth siarad ag ef gan roi digon o amser iddo brosesu arwyddion neu ddarllen gwefusau
- Peidiwch â throi eich cefn at ffenestr - mae'n anodd i blentyn byddar ddarllen ystumiau wynebol, darllen gwefusau neu ddeall arwyddion
- Peidiwch â rhoi disgybl wrth ymyl offer swnllyd megis cyfrifiaduron neu daflunwyr
- Rhowch fwy o amser i'r disgybl edrych ar gymorthyddion gweledol neu ddarllen cyfarwyddiadau

www.ndcs.org.uk
www.royaldeaf.org.uk

Gall **Anawsterau Meddygol** gynnwys ystod o gyflyrau o salwch neu heintiau cronig, anymataliaeth, anawsterau llyncu a siarad i alergeddau a thrawiadau. Nid yw cael anabledd corfforol neu feddygol o reidrwydd yn golygu bod gan ddisgybl anhawster gwybyddol neu synhwyraidd, ond gall arafu cynnydd disgyblion a/neu gynnwys triniaeth sy'n effeithio ar ei addysg.

- Sicrhewch fod cynlluniau ar waith i gynnal momentwm ac astudiaethau ar gyfer disgyblion sy'n mynychu'n ysbeidiol neu'n colli ysgol am gyfnodau hir
- Pan gaiff disgyblion eu heithrio rhag cymryd rhan mewn rhaglenni penodol, gwnewch gysylltiadau priodol gyda gwaith dosbarth lle bynnag y bo'n bosibl
- Byddwch yn ymwybodol o Gynlluniau Meddygol/Gofal Iechyd - maen nhw'n disgrifio cyflwr y disgybl a'r camau i reoli eu hanghenion meddygol/meddyginiaeth yn yr ysgol
- Mae epilepsi yn gyffredin ymysg plant ag anawsterau dysgu - byddwch yn ymwybodol o ddiffyg sylw neu newidiadau mewn ymddygiad

Anaffylacsis: **www.anaphylaxis.org.uk**
Asthma: **www.asthma.org.uk**
Clefyd y Siwgr: **www.diabetes.org.uk**
Epilepsi: **www.epilepsy.org.uk**

Anawsterau

Meddygol a Chorfforol

Arweinlyfr Hanfodol i Athrawon Dosbarth

Anghenion Addysgol Arbennig

Anawsterau Dysgu Cymedrol - bydd gan ddisgyblion ag anawsterau dysgu cymedrol gyraeddiadau sylweddol is yn y mwyafrif neu'r holl feysydd o'r cwricwlwm , er gwaethaf ymyriadau priodol. Bydd gan lawer o blant ag anawsterau dysgu cymedrol oedi gwybyddol sylweddol ac o ganlyniad bydd angen llawer o gymorth arnynt i ddilyn y cwricwlwm yn yr ystafell ddosbarth prif ffrwd. Mae plant ag anawsterau dysgu cymedrol yn cynnwys y grŵp mwyaf o blant ag AAA mewn ysgolion prif ffrwd.

Defnyddir y term **Anawsterau Dysgu Cyffredinol** pan fo gan ddisgybl anawsterau dysgu, a all fod yn eithaf difrifol ond nid yw ef/hi wedi cael ei asesu fel rhywun ag ADC.

- Defnyddiwch ddulliau amlsynnwyr
- Cefnogwch ddysgu ar ddechrau a diwedd y wers, ond anogwch y plant i weithio'n annibynnol
- Sicrhewch eich bod yn ailadrodd ac yn atgyfnerthu gan ganmol cyflawniadau
- Gofynnwch i ddisgyblion ailadrodd cyfarwyddiadau er mwyn sicrhau eu bod yn deall
- Rhowch ddigon o amser i gwblhau tasgau gan rannu'r dysgu'n ddarnau

www.teachingexpertise.com

ADC
Anawsterau Dysgu Cymedrol

Diffinnir **Amhariadau Echddygol** fel anhawster hir dymor (cronig) o ran symud a achosir gan gyflwr corfforol, genetig neu feddygol. Gall anableddau newid o ddydd i ddydd ac maen nhw'n aml yn gysylltiedig ag anawsterau meddygol, synhwyrol, canfyddiadol, seicolegol a dysgu sy'n golygu y gall cyfranogi fod yn fwy o ymdrech iddyn nhw. Mae rhai disgyblion yn annibynnol, a gallai fod angen cymorth rhan amser neu lawn amser ar eraill.

- Dysgwch am yr anabledd
- Parchwch ddymuniadau'r disgybl gan gynnal cydbwysedd rhwng helpu a galluogi annibyniaeth
- Byddwch yn ymwybodol o'r amgylchedd ffisegol gan ddarparu ar gyfer y disgyblion yn ôl yr angen
- Sicrhau hygyrchedd cyfleusterau
- Eisteddwch neu benliniwch, os oes angen, gan ddod o hyd i lefel sy'n gyfforddus i'r ddau ohonoch
- Gofynnwch i'r disgybl os hoffai help, ond peidiwch â helpu oni bai bod y disgybl yn gofyn am hynny
- Gall cyflyrau corfforol a meddygol arwain at flinder eithafol – addaswch eich disgwyliadau yn ôl yr angen

Teuluoedd gyda Phlant Anabl: **www.cafamily.org.uk**
Parlys yr Ymennydd: **www.scope.org.uk**
Nychdod Cyhyrol: **www.dfsg.org.uk**
Spina Bifida: **www.spinabifidaassociation.org**

AE
Amhariadau Echddygol

OCD
Amhariad Obsesiynol Cymhellol

Amhariad pryder yw **OCD** lle mae'r dioddefwr yn cael meddyliau ac yn cymryd camau diangen ac ailadroddus (obsesiynau) mewn ymgais i gael gwared ar y pryder a achosir gan y meddyliau hynny (gorfodaeth). Gall hyn beri llawer o ofid i'r unigolyn ac ymyrryd â'i swyddogaethau a pherthnasau o ddydd i ddydd.

- Gweithiwch gyda theuluoedd ac arbenigwyr gan ddefnyddio'r un dulliau o fynd i'r afael â symptomau OCD
- Byddwch yn ymwybodol o'r pwysau sydd ar y person ifanc a'r cyfyngiadau posibl o ran perfformio
- Defnyddiwch gyfrifiaduron lle y bo'n bosibl – mae hyn yn lleihau'r angen i obsesu dros lawysgrifen
- Byddwch yn ymwybodol o ddefnyddio rhifau – mae rhai myfyrwyr yn credu bod rhai rhifau yn 'anlwcus' neu'n 'wael'
- Ystyriwch y goblygiadau o ran tasgau penagored – gall disgyblion ofidio am y posibiliad o wneud penderfyniadau
- Rhowch gyfarwyddiadau cryno a chlir i osgoi pryder ynghylch unrhyw newidiadau neu sefyllfaoedd newydd
- Rhowch restrau o weithgareddau'r diwrnod i'r disgyblion gan eu hatgoffa amdanynt

www.ocduk.org

Cysylltiadau Ysgol Rhyngwladol

SNAP cymru

CARDIFF CAERDYDD

Cynhyrchwyd mewn partneriaeth â:
Ysgol Gynradd Peter Lea; Ysgol Uwchradd Cantonian; Ysgol Arbennig Hollies; Cyngor Dinas Caerdydd a SNAP Cymru **www.snapcymru.org**

ALlCh
Anawsterau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu

Mae **ALlCh** yn cynnwys anawsterau gydag ynganu; ymwybyddiaeth seinyddol; cystrawen – defnyddio gramadeg anaeddfed neu amhriodol; semanteg – dim dealltwriaeth o ystyr brawddegau neu eiriau a phragmateg – defnyddio iaith sy'n gymdeithasol anaeddfed neu amhriodol. Gallai plant neu bobl ifanc gael anawsterau o ran deall iaith h.y. anawsterau o ran derbyn neu o ran defnyddio iaith h.y. anawsterau mynegiannol. Mae rhai yn cael anawsterau gyda'r ddau.

- Cadwch gyfarwyddiadau'n syml
- Defnyddiwch ddulliau cyfathrebu heb fod yn rhai llafar a chliwiau gweledol ac amserlenni gweledol
- Cyflwynwch gysyniadau un ar y tro a rhowch amser iddynt feddwl
- Defnyddiwch iaith briodol
- Ystyriwch arddulliau dysgu a ffefrir
- Defnyddiwch straeon cymdeithasol fel sy'n briodol
- Defnyddiwch ddulliau gweledol i wella dealltwriaeth o sgyrsiau e.e. sgyrsiau llyfr comics

www.ican.org.uk
www.afasic.org.uk

SpLD
Anawsterau Dysgu Penodol

Anhawster dysgu penodol yw **Dyslecsia** sy'n effeithio ar brosesau dysgu o ran darllen, sillafu a/neu ysgrifennu heb fod yn gysylltiedig â namau deallusol. Gallai hefyd effeithio ar gyflymder prosesu, cof byr dymor, trefnu, dilyniant, iaith a siaredir a sgiliau echddygol. Gallai fod anawsterau o ran canfyddiad clywedol a/neu weledol.

Anhawster penodol gyda mathemateg yw **Dyscalwlia**. Gallai disgyblion gael anhawster o ran deall rhifau a chysyniadau syml, diffyg dealltwriaeth reddfedol o rifau a phroblemau o ran dysgu ffeithiau a gweithdrefnau rhifol.

- Peidiwch â gofyn i ddisgyblion gopïo oddi ar y bwrdd
- Rhowch amser ychwanegol ar gyfer darllen ac ysgrifennu
- Defnyddiwch ddulliau amlsynnwyr wrth addysgu
- Peidiwch â gofyn i ddisgyblion ddarllen yn uchel oni bai eu bod eisiau gwneud hynny
- Sicrhewch fod tasgau yn fyr ac ymarferol
- Defnyddiwch fyrddau er mwyn atgoffa disgyblion
- Sicrhewch fod disgyblion wedi cofnodi'r gwaith cartref yn gywir – rhowch daflenni wedi'u paratoi iddynt
- Rhowch dempledi o fframiau ysgrifennu a mapiau meddwl i gefnogi ysgrifennu
- Defnyddiwch ddelweddau lle bynnag y bo'n bosibl

www.bda.org.uk **www.dyslexiaaction.org.uk**
www.dyslexiawales.co.uk

Mae **Amhariadau Gweledol** yn golygu na fydd gwisgo sbectol yn cywiro golwg. Mae nam ar y golwg yn amrywio o'r rheiny sy'n ddall i'r rheiny sy'n gallu gweld yn rhannol. Gwneir 80% o ddysgu trwy weld.Mae gan tua 60% o blant â NG anghenion dysgu ychwanegol. Dylai'r disgwyliadau i'r rheiny â nam ar y golwg fod yr un mor uchel â'r rheiny i blant eraill.

- Seddi priodol – yn agos at ffocws y dysgu gan ystyried llewych ac adlewyrchiad
- Dim annibendod – dim gwifrau ac ati a dylai coridorau fod yn olau
- Cyferbyniad – dylai'r holl ddeunyddiau a gyflwynir fod yn glir, gyda digon o fwlch rhyngddynt a dylid defnyddio ffont 14pt fel ffont cyffredin
- Amgylchedd - cadwch gynllun yr ystafell ddosbarth yr un fath lle bynnag y bo'n bosibl; dylai gwybodaeth ac arddangosiadau gael eu gosod ar uchder priodol a dylai unrhyw risiau fod yn amlwg
- Lles cymdeithasol ac emosiynol – gall dehongli iaith y corff / ystumiau wynebol fod yn anodd – defnyddiwch esboniadau llafar
- Sgiliau arbenigol – dull amlsynnwyr i ddysgu, TGCh ac mae cyfnerthu cysyniad ar lafar yn hanfodol

www.rnib.org.uk

AG
Amhariadau Gweledol